Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

## Adroddiad meithrin ar:
## Cylch Meithrin Corn Hir

**Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Iwan Roberts**

**Dyddiad yr arolygiad: 27 a'r 28 Tachwedd 2008**

**Rhif y Contract: H/069/08N**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

**Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Corn Hir**

**Cyfeiriad: Safle Ysgol Corn Hir**
**Bryn Meurig**
**Llangefni**
**Ynys Môn**

**Cod Post: LL77 7JB**

**Ffôn: 01248 722851**

**Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Lynne Van-Huysse**

**Swydd: Arweinydd**

**Ynglŷn â'r arolygiad**

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

## 1.0 Cyd-destun y lleoliad

**Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:**

Cynhelir y Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg hwn mewn adeilad pwrpasol ar safle Ysgol Corn Hir, Llangefni, Ynys Môn. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol fel Cylch Meithrin Penrallt yn 1985 ond fe symudodd i'w safle presennol ym Medi 2008. Mae'r adeilad wedi ei gofrestru ar gyfer 24 o blant yn y bore a 24 yn y prynhawn ac mae'n addas o ran maint. Ar wahân i'r brif ystafell ddysgu mae ynddo storfa, toiledau gan gynnwys toiled anabl, a chyntedd. Mae cornel o'r ystafell ddysgu wedi ei chynllunio fel cegin gydag adnoddau i ddarparu bwyd ysgafn i'r plant. Mae lle chwarae pwrpasol, caeedig tu allan a renir gyda'r ysgol gynradd ynghyd a storfa i gadw offer. Caiff y Cylch hefyd ddefnydd o gae yr ysgol a cheir cyfle wythnosol i ddefnyddio neuadd yr ysgol.

Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol. Mae'n aelod cofrestredig o'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae yn darparu fel aelod o Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ynys Môn sydd yn ariannu 17 o blant 3 oed a saith o blant 4 oed mewn pedair sesiwn dwy awr a hanner yr wythnos. Caiff y plant yma gynnig sesiwn ychwanegol ar y pumed bore ar hyn o bryd. Ceir darpariaeth prynhawn ar gyfer 18 o blant ieuengach a disgwylir i'r nifer godi yn ystod y flwyddyn.

Daw mwyafrif helaeth y plant o ddalgylch Ysgol Gynradd Corn Hir. Bernir nad yw'r ardal y daw'r plant ohoni naill ai'n freintiedig nag o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Derbynnir plant o bob gallu gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Nid oedd yno blentyn o grŵp ethnig lleiafrifol.

Cyflogir pedwar aelod o staff gan gynnwys yr arweinydd. Mae'r holl staff yn meddu ar gymhwyster lefel 3 mewn gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar. Maent i gyd hefyd yn rhugl ddwyieithog. Yn ychwanegol i'r staff yma lleolwyd myfyrwraig yn y cylch am wyth sesiwn yr wythnos.

O'r 24 plentyn yn mynychu sesiynau'r bore daw 14 o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf a 10 o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith.

Cafodd y cylch ei arolygu gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2008 a bu'r arolygiad blaenorol gan Estyn yn 2002.

## 2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

### 2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a p'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.

### 2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

| Maes dysgu | Gradd ar gyfer plant o dan 5 oed |
|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | 2 |
| Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | 2 |
| Datblygiad mathemategol | 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | 2 |
| Datblygiad corfforol | 3 |
| Datblygiad creadigol | 2 |

### 2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

| Ansawdd yr addysg | Gradd ar gyfer plant o dan 5 oed |
|---|---|
| Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant | 2 |
| Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant | 3 |
| Ansawdd yr addysgu | 3 |
| Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau ar gyfer rhieni a gofalwyr | 3 |
| Ansawdd y berthynas gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned | 1 |
| Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant | 2 |
| Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad | 2 |
| Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf | 2 |

## 3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed a safonau a gyflawnir gan blant 4-5 oed

### 3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Mae'r safonau mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae'r plant wedi setlo'n dda yn y cylch ac maent yn hapus a chartrefol yno. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac arweiniad oedolion. Mae perthynas dda iawn rhyngddynt a'i gilydd a gyda'r staff ac fe ofynnant am gymorth os oes angen.

Maent wedi dod yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid a diogelwch personol ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am dacluso a chadw offer pan fo'n briodol. Bydd y rhan fwyaf o'r plant yn mynd i olchi eu dwylo heb eu cymell cyn bwyta. Maent yn bwyta eu byrbryd mewn awyrgylch trefnus, a'u hymddygiad yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn i sialens gweithgareddau newydd ac yn canolbwyntio am gyfnodau addas wrth eu cyflawni. Byddant yn cadw yn ofalus at arweiniad sy'n cyfyngu ar niferoedd mewn rhai ardaloedd ac yn barod i ddisgwyl twrn pan fo raid.

Maent yn deall yr angen i drin popeth byw gyda gofal. Mae eu hymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau yn datblygu drwy weithgareddau megis y rhai a sbardunwyd gan ddol o'r India ac o ddod i adnabod cyfaill dychmygol o'r enw Kabo a'i deulu.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys.

### 3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae'r safonau mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae pob plentyn bron yn cyfathrebu'n llafar yn hyderus gyda staff y cylch a'r mwyafrif yn gwneud hynny gydag eraill. Gall y rhan fwyaf gyfleu eu hanghenion yn effeithiol pan fo angen ac mae rhai yn medru cynnal sgwrs estynedig yn trafod eu profiadau a mynegi barn. Mae eu geirfa yn ymestyn yn barhaus a gellid adnabod dylanwad y themâu a ddilynwyd ers dechrau'r tymor, ee 'Fi fy hun', 'Yr Hydref' a'r thema gyfredol 'Fy Nhŷ'. Mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith addas a phwrpasol wrth chwarae rôl yn yr amrywiol ardaloedd o gwmpas yr ystafell.

Mae'r plant yn mwynhau gwrando ar stori ac yn medru dwyn rhannau ohonynt i gof. Caiff pob un bleser hefyd o ddysgu ac ail adrodd penillion a rhigymau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu adnabod eu henwau ar fathodynnau ac maent yn datblygu medrau sylfaenol ysgrifennu drwy'r profiad o wneud marciau mewn sawl cyfrwng. Mae nifer yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu megis labelu llun neu anfon llythyr at Santa.

Mae bron pob plentyn yn gyfarwydd â llyfrau ac yn ymddwyn fel darllenwyr wrth ymwneud a hwy. Maent yn dal llyfr yn gywir a throi tudalennau yn ystyrlon. Mae'r rhai mwyaf aeddfed yn ymwybodol fod cyfres o luniau mewn llyfr yn adrodd stori ac yn barod i gynnig dehongliad i gyd-ddarllenwr.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

### 3.3 Datblygiad mathemategol

Mae'r safonau mewn datblygiad mathemategol yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gallu cyfrif gwrthrychau hyd at bump a'r mwyafrif yn gallu cyfrif tu hwnt i hynny. Defnyddiant rigymau a chaneuon megis 'pump o fricis yn adeiladu wal' yn codi o'r thema gyfredol i atgyfnerthu eu gwybodaeth. Gall y mwyafrif hefyd adnabod rhifau at dri. Defnyddiant eirfa megis mwy/llai ac o flaen/tu ôl yn naturiol yn eu chwarae. Mae'r mwyafrif yn datblygu'r cysyniad o ychwanegu un ee un flwyddyn at eu hoed neu faint grŵp yn newid pan fo plentyn arall yn ymuno.

Drwy brofi rhai o'r gweithgareddau parhaus ee taflu bagiau pys at 'dargedi' o wahanol siapiau mae'r plant yn datblygu eu hadnabyddiaeth o'r siapiau hynny. Mae eu cysyniadau sylfaenol o gynhwysedd hefyd yn datblygu drwy'r profiadau a gant wrth arbrofi yn y cafnau tywod a dŵr.

Mae'r plant yn datblygu eu medrau technolegol yn dda drwy ddefnyddio'r cyfrifiadur a rhaglennu teganau cyfrifiadurol a daeth rhai yn hyderus iawn yn y maes yma.

Mae'r plant yn datblygu'r cysyniad o dreigl amser drwy drefn eu hamserlen ddyddiol a'r patrymau sydd ynghlwm a hi. Gall rhai adnabod amseroedd arwyddocaol yn y patrwm dyddiol ar wyneb cloc.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys.

### 3.4 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae safonau yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae ymwybyddiaeth y plant o'u hardal wedi datblygu yn sgil ymweliadau lleol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus am eu cartrefi a'u cynefin. Atgyfnerthwyd eu dealltwriaeth hefyd gan ymweliadau gan rieni i sôn am eu gwaith.

Bu'r themâu a ddilynwyd yn fodd i gyfoethogi eu profiadau a'r thema 'Yr Hydref' wedi datblygu eu dealltwriaeth o awyddocad ac effaith y tymhorau. Maent yn ymwybodol fod elfennau o'r tywydd megis eira yn gysylltiedig â rhai adegau o'r flwyddyn ac mae nifer yn gallu trafod a chryn fanylder. Maent yn ymwybodol hefyd o'r angen am ddillad penodol ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf yn deall fod y tymhorau'n effeithio ar anifeiliaid a phlanhigion.

Mae'r plant yn gallu enwi prif rannau allanol eu cyrff, ac yn mwynhau gemau megis bys ar drwyn, bys ar fol a.y.b.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

### 3.5 Datblygiad corfforol

**Mae'r nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion.**

Mae medrau'r plant i drin ystod o offer bach yn datblygu'n foddhaol. Mewn gweithgareddau crefft maent yn trin creonau, pensiliau, brwsys paent a sialc yn hyderus. Gall y mwyafrif ddefnyddio sisyrnau yn foddhaol. Maent yn mwynhau trin a rholio clai a thoes ac yn dangos dyfalbarhad wrth ddefnyddio offer modelu.

Pan fo cyfle i gynnal gweithgareddau grwp neu dorfol yn y dosbarth mae'r plant yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddid ac arweiniad sy'n eu hannog i symud ac ymestyn eu cyrff.

**Diffygion**

Mae'r elfen o gyfyngu sydd ar y gofod allanol, a'r ffaith bod angen estyn pob offer ynddo ar ddechrau sesiwn a'i gadw eto ar ddiwedd y sesiwn, yn cyfyngu ar nifer ac effeithiolrwydd gweithgareddau perthnasol. O'r herwydd mae cyfleoedd yn brin i blant ddefnyddio offer a theganau mawr fel rhan o'u dysgu dyddiol ac o ganlyniad ychydig o ddatblygu a fu ar y medrau sy'n gysylltiol â hwy.

## 3.6 Datblygiad creadigol

Mae'r safonau mewn datblygiad creadigol yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae'r plant yn mwynhau canu ac adrodd penillion a rhigymau ac yn aml yn cyflawni symudiadau perthnasol wrth eu perfformio. Defnyddiant ystod o offerynnau i ddynwared synau cyffredin ee sŵn llif a chymysgwr yn dilyn ymweliad a safle adeiladu. Caiff y plant brofiadau ehangach drwy'r gweithgareddau cerddorol a symudol a ddarperir pan fo'r grwp yn cael defnydd o neuadd yr ysgol.

Maent yn mwynhau chwarae rôl mewn ymateb i ysgogiad yn yr ardaloedd gan ddefnyddio iaith addas i'r sefyllfa. Mae mwyafrif y plant yn gallu dewis dillad ac offer addas i'r cymeriad.

Mae medrau artistig y plant yn datblygu drwy brofiadau dyddiol ag ystod o ddefnyddiau, o fewn y dosbarth a thu allan. Mae nifer o'r plant yn gallu cynhyrchu lluniau realistig o bobol, adeiladau a.y.b. gan ddewis eu hadnoddau'n annibynnol.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

## 4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed a phlant 4-5 oed

### 4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Seiliwyd trefniadaeth y Cylch ar egwyddorion clir.  Pwysleisir yr angen am gwrteisi a pharch ac mae'r elfennau yma yn amlwg yn ymddygiad y plant.  Caiff gweithredoedd da eu canmol a hyrwyddir y plant i fod yn ystyriol o deimladau plant eraill.  Gwneir defnydd da o gyfnodau megis amser bwyta ac amser tacluso i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plant

Darparwyd profiadau i'r plant sy'n codi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a sut mae bywyd plant o gefndiroedd gwahanol yn wahanol i'w bywyd nhw.

Bydd y plant yn adrodd gras cyn eu byrbryd ac yn cyd adrodd gweddi fer cyn gadael ar ddiwedd y sesiwn.  Manteisiwyd ar gyfleoedd i ddathlu'r Diolchgarwch wrth ddilyn thema 'Yr Hydref'.

Cyflwynir y plant yn rheolaidd i ystod o hwiangerddi, penillion a straeon gwerin Cymreig a daw'r plant o gartrefi Di-Gymraeg i ddeall a defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd dan arweiniad sensitif y staff.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

### 4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Mae nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion.

**Nodweddion da**

Cynllunnir yn y tymor canol ar sail themâu sydd yn addas ar gyfer oed y plant. Mae'r themâu a ddilynwyd y tymor yma yn cynnwys 'Fi fy hun', 'Yr Hydref' 'Sali Mali' a 'Fy nhŷ I'.  Mae'r themâu yn cynnig ystod o brofiadau i'r plant ar draws y chwe maes dysgu.

Yn ychwanegol i'r cynllunio tymor canol yma ceir cynllunio wythnosol sy'n ffocysu ar dasgau penodol i'r plant eu cyflawni dan arweiniad oedolion.  Cynllunnir hefyd nifer o weithgareddau parhaus dyddiol y gall y plant eu dewis.  Mae'r cynllunio yn rhoi sylw priodol i gynhwysiad, ac i Anghenion Dysgu Ychwanegol y plant.

**Diffygion**

Nid yw cynllunio i ddatblygu medrau allweddol, yn enwedig iaith, llefaredd a chyfathrebu, yn ddigon amlwg yn y cynllunio tymor byr.

Nid oes digon o fanteisio ar gyfleoedd i oedolion ymyrryd i bwrpas neu i lywio gweithgareddau penodol gyda grwpiau o blant. Mae tuedd hefyd i gynllunio gweithgaredd i'r grwp cyfan ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i'r plant ymateb yn estynedig ar lafar ac i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol eraill.

## 4.3 Ansawdd yr addysgu

Mae'r nodweddion da yn ansawdd y dysgu yn gorbwyso'r diffygion.

**Nodweddion da**

Mae'r staff yn creu awyrgylch cyfeillgar a chysurus ar gyfer y plant. Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol yn y Cylch ac fe gafwyd tystiolaeth gref gan rieni fod y plant yn hapus yno. Mae'r staff yn ofalgar a bob amser wrth law i gysuro pe bai angen.

Mae'r berthynas dda rhwng staff a phlant yn elfen gadarnhaol yn y dysgu ac mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn y Cylch yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bawb. Mae disgwyliadau'r staff o ran ymddygiad yn uchel. Mae'r staff hefyd yn cynnig modelau addas ar gyfer iaith y plant. Mae lefel yr adnoddau yn ddigonol, ac o ansawdd da, ac fe'i defnyddir i ddarparu ystod o weithgareddau i symbylu, herio a chyffroi y plant. Yn ogystal â chyfleoedd i blant weithio'n annibynnol drwy ddewis eu gweithgareddau trefnir sesiynau ffocws yn cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau grwp cyfan megis stori neu ganu. Manteisir yn dda ar gyfleoedd heb eu cynllunio megis ymddangosiad enfys fel roedd y plant yn cyrraedd y safle un bore. Mae hyn yn datblygu agweddau o'u ddealltwriaeth o'r byd a'u datblygiad ysbrydol o adnabod rhyfeddodau Duw.

Mae holl aelodau'r staff wedi ennill cymwysterau priodol i'r gwaith ac maent yn bur brofiadol. Maent wedi ymgymryd yn broffesiynol a chyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn datblygu dealltwriaeth dda o'i ofynion. Mynychodd yr holl staff y rhaglen hyfforddiant a ddarparwyd gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Lleolwyd myfyrwraig yn y Cylch a darparwyd cyfleoedd addas a phriodol i'w datblygu'n broffesiynol a'u galluogi i gyfrannu'n llawn at y ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tim. Ceir cefnogaeth gwerthfawr gan yr athrawes gyswllt a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol.

**Diffygion**

Nid yw'r dulliau holi a chwestiynnu a ddefnyddir gan yr oedolion bob amser yn atgyfnerthu dysgu plant. Annigonol ydy'r ymyryd gan oedolion yn chwarae'r plant i ddatblygu eu patrymau iaith yn y Gymraeg.

## 4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau ar gyfer rieni a gofalwyr

**Mae'r nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion**

Sefydlwyd gweithdrefnau asesu a chofnodi cynnydd newydd ar ddechrau'r flwyddyn gyfredol i gyd-fynd a'r Cyfnod Sylfaen. Cedwir Llyfr Arsylwadau ar gyfer pob plentyn unigol a chedwir record ynddo o ddatblygiad yn erbyn meini prawf penodol. Cofnodir sylwadau ychwanegol ar daflenni 'post it' a'u hychwanegu o dro i dro at y llyfrau. Mae'r gyfundrefn hefyd yn cynnig cyfle i nodi camau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer datblygu pellach. Dros amser bwriedir i'r wybodaeth am blant unigol adeiladu yn broffil defnyddiol a phwrpasol sy'n cofnodi eu cynnydd yn ogystal â darparu gwybodaeth werthfawr i bwrpas cynllunio eu gwaith.

Caiff rhieni gyfleoedd amrywiol i dderbyn gwybodaeth am drefniadaeth y cylch ac am y gweithgareddau a'r profiadau a gafodd y plant. Darperir cylchlythyr byr ar ddechrau pob thema yn amlinellu'n fras y gweithgareddau y bwriedir eu dilyn gan wahodd rhieni i gyfrannu mewn unrhyw fodd y gallent. Mae hysbysfwrdd yn y cyntedd a defnyddir hwn yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth drefniadol i'r rhieni. Cynhelir bore agored yn achlysurol ble bydd cyfle i rieni dreulio amser yn y cylch yn gweld y plant yn gweithio a thrafod gyda'r staff. Bydd plant hefyd yn mynd a gwaith adref yn rheolaidd.

**Diffygion**

Mae'r defnydd o'r gyfundrefn asesu newydd yn datblygu ond nid yw eto yn sicrhau asesiadau systematig am gynnydd y plant. Nid yw eto chwaith yn bwydo'n effeithiol i'r broses gynllunio. Ni wneir asesiad o gyrhaeddiad blaenorol y plant drwy hel gwybodaeth berthnasol gan eu rhieni/gofalwyr ar adeg eu cychwyn yn y Cylch .

Er bod rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am drefniadau'r Cylch a gweithgareddau'r plant mae lle i wella ansawdd y wybodaeth a rennir â rhieni am y cynnydd a wnaeth eu plant.

## 4.5 Ansawdd y berthynas gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Mae nodweddion da gyda rhai nodweddion rhagorol yn ansawdd y berthynas a rhieni, gofalwyr a'r gymuned.

**Nodweddion rhagorol**

Mae ansawdd y berthynas a rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn arbennig. Mae'r Cylch yn eu hannog i chwarae rhan weithredol ym mywyd y lleoliad ac fe geir ymateb da iawn i bob cais am gymorth. Gwna'r Cylch ddefnydd hynod effeithiol o arbenigedd rhieni wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant.

Ers dechrau'r tymor yma arweiniodd ymweliad gan nyrs at ehangu dealltwriaeth o ofalu am eraill yn ystod y thema 'Fi fy Hun' a bu gweld adeiladydd yn cymysgu sment ac adeiladu wal yn ysgogiad i nifer o weithgareddau ymarferol gan y plant. Yn dilyn gweithgaredd ble bu'r staff a'r plant yn gwneud bara ar adeg diolchgarwch cafwyd cynnig gan bobydd i ddatblygu gweithgareddau tebyg. Gwneir defnydd o'r gymuned ehangach fel adnodd hefyd megis y cyswllt sy'n bodoli gyda'r llyfrgell leol a'r berthynas a grëwyd gyda datblygwr safle adeiladu yng nghyffiniau'r ysgol wrth ddatblygu'r thema 'Fy nhŷ i'.

**Nodweddion da**

Cafwyd tystiolaeth gref gan rieni eu bod yn ei chael yn hawdd mynd at y staff i ofyn cwestiwn neu drafod pryder yn ymwneud a'u plant. Roedd y dystiolaeth yr un mor gryf fod rhieni'n credu fod eu plant yn hapus yn y Cylch a bod y cymorth a'r gofal a gant gan gynnwys y cymorth a'r gofal ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dda iawn.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

## 4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Mae'r cyfraniad at les plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae gweithdrefnau addas ar gael i sicrhau lles a diogelwch plant. Mae trefniadau diogel ar gyfer derbyn a rhyddhau plant ar ddechrau a diwedd y sesiynau ac fe gynhelir asesiadau risg addas o weithgareddau yn rheolaidd. Cedwir llyfr damweiniau ar gyfer cofnodi digwyddiadau perthnasol.

Mae polisi amddiffyn plant priodol yn bodoli ac mae'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe cyfyd pryder. Mabwysiadwyd ystod o bolisïau eraill sy'n cyfrannu at les y plant megis amddiffyn rhag yr haul, cadw plant rhag crwydro, iechyd a diogelwch a thynnu lluniau. Mae holl aelodau'r staff wedi eu gwirio'n briodol gan y CRB ac mae ganddynt oll gymwysterau addas mewn cymorth cyntaf.

Cymerir pob gofal i hybu iechyd a lles y plant. Darperir ffrwythau a llefrith ym mhob byrbryd a sicrheir safonau uchel o hylendid ar bob achlysur.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

## 4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

**Nodweddion da**

Mae Cylch Meithrin Corn Hir yn aelod o'r Mudiad Ysgolion Meithrin a derbynnir arweiniad buddiol ar faterion trefniadol a rheolaethol drwy'r Mudiad. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys rhieni a staff, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r pwyllgor presennol yn gefnogol a chynhaliol. Mae cyswllt da gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc lleol a cheir cefnogaeth werthfawr gan aelodau perthnasol tîm blynyddoedd cynnar yr Awdurdod Lleol.

Caiff y staff eu gwerthuso'n flynyddol ac maent yn derbyn hyfforddiant perthnasol drwy'r rhaglen sirol.

Mae'r arweinydd presennol yn ei swydd ers tua hanner blwyddyn. Yn y cyfnod yna arweiniodd y Cylch drwy symudiad i adeilad newydd ar safle newydd yn ogystal â'i arwain drwy gyfnod mabwysiadu'r Cyfnod Sylfaen. Cyflawnwyd hyn yn effeithiol heb unrhyw effaith andwyol ar ansawdd y ddarpariaeth. Datblygwyd perthynas newydd â'r ysgol a bwriedir datblygu ymhellach ar y graddau y gellir rhannu adnoddau. Mae lefel ac ansawdd yr adnoddau presennol yn dda ac fe wna'r staff ddefnydd effeithiol ohonynt.

Mabwysiadwyd trefn hunarfarnu gan y cylch yn ddiweddar. Mae hyn eisoes wedi darparu gwybodaeth reolaethol fuddiol am y pethau a wneir yn dda a'r materion hynny sydd angen sylw pellach. Mae'r arweinydd yn y broses o lunio cynllun gweithredu i ymateb i'r materion perthnasol.

**Diffygion**

Nid oes diffygion o bwys

## 4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Mae'r gofynion sy'n berthnasol i adrodd i rieni wedi newid ers yr adroddiad diwethaf. Bu'r ymateb i weddill yr adroddiad yn dda.

## 5.0 Argymhellion

**Mae angen i'r lleoliad:**

1. gael gwybodaeth gan rieni/gofalwyr o allu a sgiliau eu plant pan fyddant yn cychwyn yn y cylch ac adeiladu ar y drefn asesu bresennol:

    a) i wneud gwell defnydd o arsylwadau ar blant unigol wrth gynllunio ar eu cyfer; ac
    b) i gofnodi eu cynnydd yn fwy effeithiol;

2. i fanteisio mwy ar gyfleoedd i oedolion ymyrryd i bwrpas yn ystod y gweithgareddau parhaus;

3. i ddatblygu ymhellach y trefniadau ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd eu plant ac;

4. i ddatblygu ymhellach y defnydd o'r ardal tu allan i hyrwyddo safonau ar draws y 6 maes dysgu.

**Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.**